Dewis contractwyr cymwys ar gyfer gweithio ar uchder

‘Ymgyrch 'Height Aware'

Taflen wybodaeth 3

Os oes angen i chi ddefnyddio contractwyr i ymgymryd â gwaith ar uchder, bydd y wybodaeth hon yn eich helpu i ddewis y sefydliad mwyaf priodol a sicrhau y caiff y gwaith ei wneud yn ddiogel. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i gontractwyr sy'n cynnig am waith.

Ydych chi'n gyfrifol am gynnal a chadw adeilad neu beirianwaith? A oes angen gweithio ar uchder er mwyn gwneud hyn? Gall tasgau gynnwys glanhau landeri, paentio, atgyweiriadau i'r to, neu drin peirianwaith neu offer trydanol. Os ydych, mae angen i chi sicrhau bod unrhyw gontractwyr a ddefnyddiwch ar gyfer y gwaith hwn yn gymwys i weithio ar uchder.

Dewis contractwyr

Nodwch y gwaith sydd angen ei wneud. Bydd hyn yn eich helpu i benderfynu ar y math o gontractwyr y mae eu hangen arnoch a'r math o gymhwysedd y byddwch yn disgwyl iddynt feddu arno.

Ask the following questions to help you decide if the contractor is competent to do the work you need them to do.

- Eu profiad:
  - Pa brofiad sydd ganddynt gyda'r math hwn o waith?
  - A allant gyflwyno geirdaon? Efallai y byddwch am gadarnhau'r rhain.

- Eu cymhwysedd:
  - A oes gan eu gweithwyr unrhyw gymwysterau, hyfforddiant neu brofiad priodol? Mae hyn yn bwysig os ydynt yn defnyddio offer gwaith, ee sgaffaldiau t_r, craeniau casglu ffrwythau ac ati
  - A ydynt yn aelod o gorff masnachol neu broffesiynol?
  - Beth yw eu perfformiad diogelwch (ee cofnodion o ddamweiniau)?
  - A allant roi enghreifftiau o ddulliau o waith, asesiadau risg neu ddogfennaeth berthnasol arall i ddangos eu bod yn gyfarwydd â'r math o waith?

- Eu trefniadau rheoli:
  - Beth yw eu gweithdrefnau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch?
  - A gaiff y gwaith ei is-gontractio ac os felly, sut y byddant yn ei reoli?
  - Sut ydynt yn goruchwylio a rheoli eu gwaith ar y safle?
  - Sut ydynt yn monitro a chadarnhau eu safonau diogelwch eu hunain?
  - Sut ydynt yn archwilio ac yn gwirio eu hoffer (y maent yn berchen arno neu wedi'i logi)?
  - A oes ganddynt yswiriant atebolrwydd cyflogwyr?

- A ydynt yn gofyn i chi am unrhyw wybodaeth am eich risgiau neu'ch anghenion?

Po fwyaf yw cymhlethdod a pherygl y gweithgareddau, y mwyaf tebygol ydyw y bydd angen i'r atebion a'r wybodaeth gael eu cofnodi.

Fel y cleient, byddwch yn gyfrifol am gadarnhau bod unrhyw gontractwr a benodwch yn gymwys i wneud y gwaith yn ddiogel. Bydd angen cadarnhad mwy trylwyr ar waith sy'n golygu risgiau uwch, ee gwaith ar doeon, er mwyn sicrhau bod gan y contractwr y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.

Unwaith eich bod wedi dewis contractwr cymwys, bydd angen i chi gyfnewid gwybodaeth a chytuno ar ddull o waith.

Bydd angen gwneud y ddau cyn i waith ddechrau. Mae cyfarfodydd cyn-gwaith yn ffordd dda o sicrhau y caiff y gwaith ei gynllunio a'i reoli'n dda. Yn olaf, bydd hefyd angen i chi fonitro'r gwaith.

Cyfnewid gwybodaeth

Sicrhewch eich bod yn siarad â'ch contractwr ac yn cydweithio ag ef fel bod y pwyntiau canlynol yn cael eu trin:

- Cadarnhewch yr enwau cyswllt a'u rhifau ffôn, fel bod y ddwy ochr yn gwybod â phwy i siarad yn ystod y gwaith er mwyn trafod a datrys unrhyw broblemau. Dylai'r enwau cyswllt fod o blith y bobl hynny a oedd yn rhan o gytuno ar y gwaith, fel bod ganddynt ddealltwriaeth fanwl ohono a'r rhagofalon y cytunwyd arnynt.

- Trafodwch y canlynol os ydynt yn berthnasol i'ch gwaith:
  - rheolau eich safle/sefydlu;
  - gweithdrefnau tân/argyfwng;
  - gweithdrefnau llofnodi i mewn ac allan;
  - trefniadau arwahanu;
  - peryglon penodol ar y safle y mae angen i'r contractwr fod yn ymwybodol ohonynt, ee deunyddiau bregus, trydan byw, lleoliad unrhyw ddeunyddiau asbestos, symudiadau cerbydau a pheryglon o ran prosesau, ee mygdarth, gwres ac ati.

Cytunwch ar y dull gwaith

Dylai'r dull gwaith fod yn ysgrifenedig, oni bai mai risg isel sydd ynghlwm â'r gwaith a'i fod yn waith byr. Dylai'r manylder a gynhwysir adlewyrchu cymhlethdod y gwaith.

Bydd dull gwaith da yn:

- glir ac yn gryno;
- perthnasol i'r gwaith;
- nodi'r peryglon posibl;
- nodi'r dull gwaith a'r rhagofalon i'w cymryd i ddileu neu leihau'r risg;
- nodi sut y caiff y gwaith ei oruchwylio a'i reoli.

Dylai gynnwys, ee:

- manylion y math(au) o offer mynediad i'w ddefnyddio, ee mynediad p_er, sgaffaldiau t_r;
- trefniadau ar gyfer cludo, symud a chodi offer cael mynediad yn ddiogel;
- sut y bydd diogelwch yr offer cael mynediad yn cael ei wirio;
- pa drefniadau sydd eu hangen i sicrhau diogelwch pobl sy'n agos i'r gwaith, ee os oes angen arwahanu rhag cerbydau sy'n symud;
- trefniadau ar gyfer delio â risgiau penodol ar y safle, ee p'un a oes angen ynysu trydan trydanol;
- trefniadau storio lleol ar gyfer deunyddiau ac unrhyw eitemau gwastraff;
- y drefn y dylid ymgymryd â'r gwaith, yn enwedig os nad yw'n amlwg.

Bydd lefel yr oruchwyliaeth y dylai contractwr ei darparu yn dibynnu ar raddfa'r risg sydd ynghlwm â'r gwaith ac ar y lefel o hyder ym mherfformiad y gweithlu. Er enghraifft, bydd angen llai o oruchwyliaeth ar dîm profiadol o gyflogeion yn ymgymryd â gwaith sy'n gyfarwydd iddynt na gweithwyr sy'n llai profiadol neu sy'n ymgymryd â thasgau anghyfarwydd.

Monitrwch y gwaith

Mae'n rhaid i chi fonitro pob contractwr er mwyn sicrhau y caiff y trefniadau a'r rhagofalon y cytunwyd arnynt eu gwneud. Bydd lefel y monitro sydd ei hangen yn dibynnu ar lefel risg y gwaith ac i ba raddau y gall y gwaith beryglu eich cyflogeion, eich ymwelwyr a phobl eraill y mae gennych gyfrifoldeb drostynt.

Bydd angen i chi gymryd y camau canlynol:

- **cyn** i waith ddechrau, sicrhewch fod yr offer y dywedodd y contractwr y byddai'n ei ddefnyddio yno a bod y trefniadau goruchwylio ac arwahanu y cytunwyd arnynt ar waith. Cadarnhewch dystysgrifau hyfforddiant;
- **yn** ystod y gwaith, defnyddio'r dull gwaith y cytunwyd arno i fonitro'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, drwy gynnal gwiriadau rheolaidd. A ydynt yn defnyddio'r offer gwaith a'r dulliau gwaith y dywedant y byddent? A yw'r bobl hyfforddedig ar y safle? Os nad ydynt, gofynnwch pam a sicrhewch y cymerir camau i gywiro'r sefyllfa;
- **ar** ôl i'r gwaith orffen, adolygwch berfformiad y contractwr i weld p'un a aeth popeth fel y cynlluniwyd, fel y byddwch yn hyderus wrth ei ddewis ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Hoffech chi ragor o wybodaeth?

Dyma un o bum taflen wybodaeth yr ymgyrch 'Height Aware. Y gweddill yn y gyfres yw:

Taflen 1: Gweithio ar uchder: Yr hanfodion
Taflen 2: Dewis offer ar gyfer gweithio ar uchder
Taflen 4: Dewis, defnyddio a chynnal a chadw offer diogelwch personol rhag syrthio
Taflen 5: Mân waith cynnal a chadw toeon: Diogelu rhag syrthio

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr HSE www.hse.gov.uk/falls ac o Linell wybodaeth HSE ar 0845 345 0055.

LACORS
promoting quality regulation